


**Ymgynghoriad ffurfiol i sefydlu uned adnoddau
dysgu yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion**

Fersiwn Crynodeb Dyddiol – Plant a Phobl Ifanc

5 Medi 2018 – 16 Hydref 2018



Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools





If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact Newport City Council on 01633 656656 or by emailing school.reorg@newport.gov.uk

English

Os hoffech yr wybodaeth hon ar unrhyw ffurf arall er enghraifft braille neu brint bras, neu os hoffech help gan ddehonglydd iaith arall, cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ar 01633 656656 neu e-bostiwch school.reorg@newport.gov.uk

Welsh

如果您希望以其他格式獲取以上信息，例如凸字及大字體印刷，或者如您有口語翻譯的需求，請與新港市政府聯繫。電話：01633 656656 郵箱 school.reorg@newport.gov.uk

Cantonese

Pokud byste chtěli tyto informace v libovolném jiném formátu, například brailloviském písmu nebo velkém tištěném textu nebo pomoci s tlumočením v jiném jazyce, kontaktujte Newport City Council na čísle 01633 656656 nebo e-mailem school.reorg@newport.gov.uk

Czech

اگر شما این اطلاعات را در فرمت دیگر می خواهید مثلاً بریل (الفبا نابینایان) یا چاپ بزرگ یا کمک به تفسیر در زبان دیگر، لطفاً با شورای شهر Newport City Council ایمیل کنید 01633 656656 تماس بگیرید school.reorg@newport.gov.uk یا به این آدرس ایمیل

Farsi

Ha szeretné ezt az információt másmilyen formátumban, például Braille-írással vagy nagybetűvel nyomtatottan vagy szeretne fordítást különböző nyelven akkor legyen szives kapcsolatba lépni a Newporti Tanáccsal a 01633 656656 telefonszámon vagy emailezzen a school.reorg@newport.gov.uk

Hungarian

Jei norite gauti aukščiau pateiktą informaciją kitais formatais, pvz., "Brailio raštu" ir dideliu šriftu spausdinimu, arba jei turite žodinį vertimą, susisiekite su Niuporto miesto vyriausybe. Tel: 01633 656656. Elektroninis Paštas: school.reorg@newport.gov.uk

Lithuanian

如果您希望以其他格式获取以上信息，例如盲文及大字体印刷，或者如您有口语翻译的需求，请与新港市政府联系。电话：01633 656656 邮箱：school.reorg@newport.gov.uk

Mandarin

Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'em czy dużym drukiem, lub pomoc przy tłumaczeniu w innym języku, prosimy o kontakt z Urzędem Miasta Newport na 01633 656656 lub wysyłając maila na school.reorg@newport.gov.uk

Polish

Se você quiser essa informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou impressão em letra grande, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, entre em contato com a Câmara Municipal de Newport através do número 01633 656656 ou enviando um email para school.reorg@newport.gov.uk

Portuguese

Dacă doriți această informație în alt format, de exemplu Braille sau în format mare, sau ajutor cu interpretarea în alta limbă, vă rugăm să contactați Newport City Council la numărul de telefon : 01633656656 sau prin e-mail-ul: school.reorg@newport.gov.uk

Romanian

Если вы хотите получить вышеуказанную информацию в других форматах, таких как шрифт Брайля и большой шрифт, или если у вас есть необходимость в устном переводе, обратитесь в управление города Ньюпорт. Тел: 01633 656656 Электронная почта : school.reorg@newport.gov.uk

Russian

V prípade, že potrebujete tieto informácie v inom formáte, ako napríklad Brajlove písmo alebo veľká tlač alebo potrebujete pomoc s prekladom alebo tlmočením do iného jazyka, prosím kontaktujte Newport City Council na telefónnom čísle 01633 656656 alebo mailom na school.reorg@newport.gov.uk

Slovak

Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, por favor póngase en contacto con el Ayuntamiento de Newport al 01633 656656 o por correo electrónico a school.reorg@newport.gov.uk

Spanish

اگر آپ یہ معلومات کسی دوسری شکل میں حاصل کرنا پسند کریں گے مثال کے طور پر بریل (نابینا اشخاص کے لیے) یا بڑے پرنٹ میں یا سے اس نمبر پر رابطہ کریں Newport City Council دوسری زبان میں ترجمے کے لیے تو برائے مہربانی نیوپورٹ سٹی کونسل 01633 656656 یا اس پتہ پر ای میل کریں school.reorg@newport.gov.uk

Urdu

Gellir trefnu i ddarparu'r wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill yn ôl yr angen. Cysylltwch â ni ar 01633 656656 i drefnu hynny.



Mae'r Cyngor yn cynnig sefydlu Uned Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion a fydd i'w hagor ym mis Ebrill 2019.

Mae Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion ar hyn o bryd yn gweithredu ar ddau safle yn hen adeiladau Ysgol Feithrin ac Ysgol Iau Lodge Hill Caerllion. Mae project adeiladu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i godi adeilad newydd i fabanod ac i blant iau â lle i'r holl ddisgyblion, ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddod i ben ym mis Hydref 2018. Ar ôl cwblhau, bydd rhaglen yn cael ei rhoi ar waith i helpu'r broses o drosglwyddo disgyblion i'r adeilad newydd erbyn mis Ionawr 2019 fan bellaf.

Mae gan Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion 1.5 dosbarth mynediad a lle i 315 o ddisgyblion oedran ysgol statudol. Mae yna ddosbarth feithrin hefyd sy'n medru cynnal 24 lle cyfwerth ag amser llawn, y darperir drwy gyfrwng naill ai sesiwn fore neu sesiwn brynhawn. Bydd adeilad newydd yr ysgol yn elwa ar ddosbarth ychwanegol hefyd, a chynhigir y defnyddir hwn i greu Uned Adnoddau Dysgu gyffredinol â lle i ddeg disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol nad yw addysg llawn amser yn y brif ffrwd yn addas iddynt.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r galw cynyddol dros y 5-10 mlynedd ddiwethaf am ddarpariaeth addysg arbenigol ledled Casnewydd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth Uned Adnoddau Dysgu yn ardal glwstwr Caerllion nac ychwaith yn ardal glwstwr St Julian. Bydd y cynnig, felly, yn fuddiol i ddisgyblion sy'n byw yn lleol, ond nid ar gyfer y bobl sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr hon yn unig. Gall disgyblion ledled y ddinas ddefnyddio'r uned hon i gefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd addas a diogel. Ni fydd unrhyw effaith niweidiol ar ddarpariaeth prif ffrwd neu gynorthwyol yn yr ysgol hon, nac yn unrhyw ysgol arall yng Nghasnewydd.

Sut allaf gymryd rhan?

Mae dwy sesiwn ymgynghori galw heibio wedi cael eu trefnu ac mae croeso i chi ddod i gyfarfod â swyddogion y Cyngor wyneb yn wyneb i drafod y cynnig.



Lleoliad	Dyddiad ac Amser	Sesiwn
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion Lodge Hill, Caerllion, NP18 3BY	Dydd Mawrth 11 Medi 2018 3.45pm – 5.45pm	Galw heibio
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion Lodge Hill, Caerllion, NP18 3BY	Dydd Iau 27 Medi 2018 3.45pm – 5.45pm	Galw heibio

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal rhwng dydd Mercher 5 Medi 2018 a chanol nos ddydd Mawrth 16 Hydref 2018.

Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau drwy ddefnyddio'r profforma ymateb atodedig. Bydd y profforma hefyd ar gael yn y sesiynau galw heibio, neu gellir ei lawrlwytho o www.newport.gov.uk/schoolreorganisation

Dylid dychwelyd yr atebion i'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall, gellir dychwelyd sylwadau a ffurflenni profforma wedi'u cwblhau mewn e-bost at school.reorg@newport.gov.uk

Cwestiynau ac Atebion

Pam rydych am wneud hyn?

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu mewn adeilad ysgol newydd sbon gan ei fod yn cefnogi dull mwy cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae awydd hefyd i fod mewn sefyllfa lle mae o leiaf un Uned Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, nac ychwaith yng nghlwstwr St Julian cyfagos. Bydd hyn, felly, yn cynyddu cyfleoedd i blant ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu ysgol gynradd sy'n lleol i'w cartref.



Pryd fydd hyn yn digwydd?

Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, bydd yr Uned Adnoddau Dysgu yn agor ym mis Ebrill 2019. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r corff llywodraethu benodi staff dysgu a chynorthwyo addas a bydd hefyd yn sicrhau y gellir trosglwyddo disgyblion i'r adeilad newydd yn effeithlon.

Sut fydd y cynnig hwn yn effeithio ar ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol?

Darpariaeth ychwanegol fydd yr Uned Adnoddau Dysgu a fydd ar gael drwy ddylunio'r adeilad newydd yr ysgol. Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar addysg brif ffrwd Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion, ac, mewn gwirionedd, ystyrir y bydd yr ysgol a'r gymuned ehangach yn elwa yn y tymor hir.

Faint o ddisgyblion bydd yn cael eu dysgu yn y dosbarth newydd?

Mae Uned Adnoddau Dysgu yn gweithredu mewn dosbarth maint arferol, ond 10 disgybl yn unig y gellir eu dysgu ar unrhyw un adeg er mwyn cynnal amgylchedd dysgu cefnogol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Lle bo'n bosibl, rhoddir ystyriaeth i gyfleoedd i ail-integreiddio disgyblion i ddisbarthiadau prif ffrwd fel sy'n briodol.

A fydd modd i'r ysgol newydd gymryd mwy o blant na'r nifer bresennol?

Bydd. Bydd gan yr Uned Adnoddau Dysgu le i 10 disgybl, ac felly bydd modd i'r ysgol dderbyn 10 disgybl yn fwy na'r nifer bresennol.

Sut fyddwch yn penderfynu pa ddisgyblion fydd yn mynychu'r Uned Adnoddau Dysgu?

Ni fydd modd i ddisgyblion wneud cais am le yn yr Uned Adnoddau Dysgu. Derbynnir disgyblion i'r uned ar sail anghenion unigol yn sgil asesiad gan y Tîm Cynhwysiant Addysg. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i ddewis rhieni ac yn ymgynghori â'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu o ran pa mor briodol yw'r lleoliad.

A fydd angen i'r ysgol gyflogi mwy o staff?

Bydd. Bydd angen i'r corff llywodraethu gyflogi staff ychwanegol. Yn gyffredinol, caiff 10 lle yn yr Uned Adnoddau Dysgu eu cefnogi gan un athro a dau gynorthwydd addysgu. Bydd cyllideb yr ysgol yn cynyddu i gynnwys y costau ychwanegol hyn.

A fydd unrhyw waith adeiladu pellach?

Na fydd. Mae'r project adeiladu presennol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr Uned Adnoddau Dysgu newydd ac nid oes cynlluniau am waith cyfalaf arall ar y safle yn sgil y cynnig hwn. Gellir trefnu i ddarparu'r wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill yn ôl yr angen. Cysylltwch â ni ar 01633 656656 i drefnu hynny.





Profforma Ymateb i Ymgynghoriad

Sefydlu Uned Adnoddau Dysgu yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion

Mae eich barn yn bwysig. Rhowch wybod i ni eich barn ar y cynnig drwy gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd i'r Gwasanaeth Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 425W, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR. Fel arall gallwch e-bostio eich ymateb i school.reorg@newport.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw canol nos, 16 Hydref 2018.

Nodwch na fydd yr ymatebion negyddol i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau i'r cynnig, onid yn sylwadau gwrthwynebus. Gellir ond cofrestru gwrthwynebiadau ar ôl i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddu.

A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Uned Adnoddau Dysgu gyffredinol â lle i 10 disgybl oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion?

Ydw Nac ydw

Defnyddiwch y blwch isod i roi unrhyw resymau neu sylwadau (gan gynnwys opsiynau eraill).

Os hoffech gael gwybod am gyhoeddiad adroddiad yr ymgynghoriad, nodwch eich manylion cyswllt:

E-bost: _____

Cyfeiriad post: _____
